O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 267 (Cy. 42)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pont ar Ddyfi, Machynlleth, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed *3 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *13 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pont ar Ddyfi, Machynlleth, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 ym Mhont ar Ddyfi, Machynlleth, yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt ym mhen deheuol Pont ar Ddyfi, 75 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r A489 a'r A493 hyd at